# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09:00)

**2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 - 5 Gorffennaf 2019**

(Tudalennau 1 - 5)

## 3 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 7

(09:00-10:00) (Tudalennau 6 - 43)

Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorly, Llywodraeth Cymru

Steven Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Arloesol, Llywodraeth Cymru

Papur 1 - Papur gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Brîff ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o ran o'r cyfarfod (eitemau 5, 7, 8 a 9)

(10:00)

## 5 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Briffio

(10:00-10:30) (Tudalennau 44 - 65)

Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Matthew Richards, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid

Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid

Papur 2 – Llythyr gan Suzy Davies AC, Comisiynydd ar gyfer y Gyllideb a Llywodraethu – 27 Mehefin 2019

Brîff ymchwil

## 6 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Sesiwn dystiolaeth 4

(10:30–11:30) (Tudalennau 66 – 96)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru

Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru

Brîff ymchwil

## 7 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Materion allweddol

(11:30–12:00) (Tudalennau 97 – 99)

Papur 3 – Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Camau nesaf

## 8 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21: Trafod penodi cynghorydd arbenigol

(12:00–12:05) (Tudalennau 100 – 106)

Papur 4 – Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21: Trafod penodi cynghorydd arbenigol

## 9 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Materion allweddol

(12:05–12:30)

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/VG/0420/19

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Gorffennaf 2019

Annwyl Dai,

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)**

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 3 Gorffennaf i drafod agweddau ariannol y Bil, roeddwn yn meddwl efallai y byddai'n ddefnyddiol darparu rhagor o wybodaeth cyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 11 Gorffennaf.

Yn y Pwyllgor Cyllid, daeth yn amlwg, er bod cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad polisi eang y tu ôl i'r cynigion, bod diddordeb yn y modd y bydd yr amcanion a'r buddion yn cael eu gwireddu'n benodol o ran y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.

**Cyd-destun y Bil:**

Rhaid i ansawdd fod wrth wraidd pob agwedd ar ddarpariaeth gofal iechyd, ac mae rhoi lle amlwg i ansawdd yn Neddf GIG Cymru yn tanlinellu bwriad y polisi, sef sicrhau bod ansawdd yn ganolog i'r broses benderfynu yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn dwyn ynghyd y newidiadau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, gan gynnwys y ddyletswydd gonestrwydd a chryfhau llais y dinesydd er mwyn helpu i wella ansawdd gwasanaethau.

Argymhellodd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn 2018 y dylai iechyd a gofal yng Nghymru anelu at gyflawni'n unol a'r "Nod Pedwarplyg", sef mynd ati'n barhaus wneud y canlynol:

- gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal;
- gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd;
- cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol;
- cynyddu'r gwerth a geir drwy ariannu iechyd a gofal, drwy wella, arloesi, defnyddio arferion gorau, a dileu gwastraff.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ceisio helpu i wireddu'r uchelgeisiau hyn mewn nifer o ffyrdd sy'n gysylltiedig â'i gilydd, drwy wneud gwella ansawdd yn gysyniad canolog sy'n sail i'r darpariaethau yn y Bil.

Mae bwriad a nodir yn y Bil yn cyd-fynd â'r 'Nod Pedwarplyg' drwy sicrhau bod ansawdd yn ystyriaeth ar draws holl swyddogaethau cyrff iechyd yng Nghymru. Bydd yn gwella profiad y defnyddiwr gwasanaethau, a'r cyfathrebu a'r ymgysylltu rhwng y GIG a defnyddwyr ei wasanaethau. Bydd yn caniatáu i ni adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i sicrhau bod cyrff y GIG yng Nghymru yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith, ac yn cefnogi'r ymdrech i sicrhau system sy'n dysgu ac yn gwella drwy'r amser ac sy'n ennyn ymddiriedaeth a hyder cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

**Dyletswydd ansawdd:**

<u>Cefndir:</u>

Mae cyrff y GIG wedi bod o dan ddyletswydd i wneud trefniadau er mwyn gwella ansawdd gofal iechyd ers 2003, o dan adran 45(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003 ("Deddf 2003").

Er bod y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG wneud trefniadau i fonitro a gwella ansawdd gofal iechyd, mae wedi'i dehongli i raddau helaeth fel deddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG sicrhau trefniadau sicrwydd ansawdd (rheolaeth) i fonitro a gwella ansawdd y gofal iechyd a ddarperir, yn hytrach na chanolbwyntio mewn modd cynhwysfawr ar dair elfen system ansawdd fel y'i disgrifiwyd gan yr arolwg seneddol:

- cynllunio o ansawdd;
- gwella;
- rheolaeth er mwyn sicrhau ffocws ar wasanaethau o ansawdd da ar gyfer y boblogaeth ehangach.

Mae'r ddarpariaeth newydd yn rhoi pwyslais ar ansawdd y gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth ehangach ac yn ymgorffori ystyriaethau ansawdd fel eu bod wrth wraidd y prosesau penderfynu.

Mae'r ddarpariaeth newydd, felly, yn ymwneud â sicrhau bod y dull gweithredu o ran ansawdd yn ymwneud'r system gyfan, yn hytrach na dim ond y gwasanaethau clinigol sydd â threfniadau sicrwydd (rheoli) neu sydd angen bodloni safonau ansawdd. Y mae – ac mae'n rhaid iddi fod felly – yn llawer ehangach er mwyn cynnal gwelliannau o ran ansawdd a chanlyniadau.

Bydd cynnwys dyletswydd ansawdd ehangach mewn deddfwriaeth, sy'n fwy cydnaws â'r modd yr ydym am i gyrff i GIG weithio, yn cryfhau camau gweithredu a phenderfyniadau er mwyn llywio gwelliannau ansawdd a fydd yn canolbwyntio ar y canlyniadau i bobl Cymru.

Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb am oruchwylio'r GIG yng Nghymru ac mae llawer o'r polisïau a ddatblygir gan Weinidogion Cymru, boed yn ddeddfwriaethol neu beidio, yn effeithio ar y modd y mae cyrff y GIG yng Nghymru yn gweithredu. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2003 yn gosod dyletswydd ansawdd ar Weinidogion Cymru o ran arfer eu swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd.  Mae'r Bil yn ymdrin â bwlch hwn.

Yn olaf, nid oes unrhyw fecanweithiau adrodd yn Neddf 2003. Mae mecanweithiau adrodd yn fuddiol gan eu bod yn galluogi cyrff sy'n atebol i'r ddyletswydd ansawdd ddangos sut mae eu swyddogaethau wedi'u harfer i sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, mae adrodd hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer dwyn cyrff i gyfrif,

ac yn helpu'n ogystal i gynnal gwerthusiad ac asesiad o fudd dros amser. Mae hefyd yn ffordd dryloyw o ddangos sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd.

Y canlyniadau a ddisgwylir:

Bydd ail-lunio'r ddyletswydd ansawdd er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, yn newid ffocws y broses benderfynu ac yn golygu bod hyn yn gam pellach ar y daith tuag at safonau hyd yn oed yn uwch i wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.

Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru feddwl a gweithredu mewn ffordd wahanol drwy gymhwyso'r cysyniad "ansawdd", nid yn unig i'r gwasanaethau a ddarperir, ond i'r holl benderfyniadau a threfniadau yng nghyd-destun anghenion iechyd eu poblogaethau.

Mae'r ddyletswydd newydd yn adlewyrchu'r ffaith y gall holl rannau'r system gyfrannu at wella ansawdd a chanlyniadau. Er enghraifft, gall Ymddiriedolaeth GIG Felindre, sy'n cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, wella ansawdd gwasanaethau iechyd drwy wella ei gwasanaethau digidol. Yn ei dro gall hyn wella effeithiolrwydd y gwasanaethau iechyd yn gyffredinol, a phrofiad defnyddiwr y gwasanaethau. Felly, mae'r ddyletswydd yn adlewyrchu'r ffaith y gellir gwella ansawdd gwasanaethau clinigol drwy wella gwasanaethau ystafell gefn fel hyn.

Gallai enghraifft arall gynnwys adrodd ar gamau a gymerwyd i wella diogelwch drwy ostwng yr heintiau a gaiff eu dal yn yr ysbyty neu drwy wella'r ffordd y caiff sepsis ei ddarganfod, a fydd yn ei dro yn arwain at well canlyniadau i gleifion.

Trwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried goblygiadau ehangach y modd y bydd eu penderfyniadau yn gwella canlyniadau iechyd eu poblogaeth, mae'r ddyletswydd arfaethedig yn annog byrddau iechyd lleol i weithio gyda'u cymdogion a'u partneriaid ar draws y sector i leihau anghydraddoldebau ac amrywiadau iechyd na ellir eu cyfiawnhau. Bydd yn annog rhannu adnoddau ac arbenigedd, a bydd hynny yn ei dro yn arwain at gyfleoedd i wella effeithlonrwydd, diogelwch ac ansawdd gwasanaethau.

Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi'r pum ffordd o weithio yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'n annog meddwl hirdymor a chamau gweithredu integredig a chydweithredol sy'n gweithio i gyflawni'r nod llesiant Cymru Iachach.

Bydd y gofyniad adrodd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau'n ymwneud ag iechyd) a chyrff y GIG i asesu'r gwelliant yn y canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, gan ddangos sut yr ydym yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd y gofyniad i adrodd yn flynyddol yn egluro sut mae cyflawni'r ddyletswydd wedi arwain at welliannau mewn ansawdd, gan ddarparu llinell sylfaen i fesur a monitro gwelliannau yn y dyfodol, ac yn gwneud y system yn fwy agored a thryloyw. Bydd adroddiad Gweinidogion Cymru'n cael ei osod gerbron y Cynulliad, gan alluogi Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoeddi i graffu arno.

**Dyletswydd gonestrwydd:**

Cefndir:

Mae gan bob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol nod cyffredin, sef darparu gofal o ansawdd uchel.

Mae'n bwysig cydnabod y cymerwyd camau amrywiol eisoes, gyda'r nod o ddatblygu "diwylliant agored" yn y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer ymdrin â chwynion yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011, gwella'r dull o gofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol, cynnal adolygiad o bob marwolaeth mewn ysbytai a chyhoeddi Datganiadau Ansawdd Blynyddol gan fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, fel yn Lloegr a'r Alban, rydym hefyd wedi ceisio dysgu gwersi o achosion go iawn lle cafodd niwed ei achosi, ynghyd â'r argymhellion sy'n deillio o wahanol adroddiadau ac adolygiadau.

Felly, mae'n amlwg bod llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu a chefnogi diwylliant agored o fewn y GIG yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi sefydliadau iechyd mewn sefyllfa ffafriol i weithredu dyletswydd fwy ffurfiol o onestrwydd, sef y cam rhesymegol nesaf yn y gyfres o fesurau sydd eisoes ar waith i wella ansawdd a bod yn fwy agored.

<u>Y canlyniadau a ddisgwylir:</u>

Ceir tystiolaeth bod agwedd fwy agored, tryloywder a gonestrwydd yn gysylltiedig â chyflawni safon uwch o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Mae sefydliadau sydd â diwylliannau agored a thryloyw yn fwy tebygol o dreulio amser yn dysgu o ddigwyddiadau, yn hytrach nag ymateb yn amddiffynnol, ac maent yn fwy tebygol o gael prosesau a systemau ar waith i gefnogi staff ac unigolion pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Bydd dyletswydd statudol o onestrwydd, sydd wedi'i phennu ar gyfer sefydliadau'r GIG yng Nghymru:

- yn helpu i greu dull gweithredu i'r system gyfan o ran gonestrwydd;
- yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn gwella ansawdd y gofal o fewn y gwasanaeth iechyd, drwy annog sefydliadau i ddysgu er mwyn osgoi digwyddiadau yn y dyfodol;
- yn lleihau'r ofn ymhlith staff o ôl-effeithiau neu fai sefydliadol;
- yn helpu cyrff y GIG i adeiladu ar y gwaith o dan y broses Gweithio i Wella i sefydlu ymddygiad gonest, gan sicrhau bod ymddwyn yn agored a thryloyw gyda phobl o ran eu gofal a'u triniaeth yn rhan arferol o'r diwylliant ar draws y cyrff hyn yng Nghymru;
- yn annog sefydliadau i ystyried a dysgu - gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyflwyno adroddiadau bob blwyddyn.

Mae gosod y ddyletswydd ar lefel sefydliadol yn helpu i greu'r amodau sy'n galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i weithredu'n onest, a dylai hyn helpu i annog y corff y maent yn gweithio iddo i fod yn agored ac yn onest gyda'r unigolion. Mae hyn wedi'i groesawu gan ddarparwyr gwasanaethau'r GIG.

Mae'r digwyddiadau diweddar yng Nghwm Taf yn dangos mewn gwirionedd pam y mae angen dyletswydd ansawdd well a chryfach, a dyletwydd gonestrwydd i sefydliadau. Bydd y dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau i fod yn fwy tryloyw yn eu penderfyniadau, ac yn gwneud iddynt fynd ati i ystyried ansawdd ac i nodi lle mae angen gwelliannau a chymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r dyletswyddau yn rhan o gyfres fesurau o deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi trefniadau ar waith i wella a diogelu iechyd y boblogaeth drwy wneud gwella ansawdd yn gysyniad canolog. Ni fydd hyn, ar ei ben ei hun, yn atal gofal o ansawdd gwael ond bydd yn mynd rywfaint o'r ffordd i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn rhoi ansawdd wrth wraidd ei benderfyniadau ac yn gwella ac yn dysgu'n barhaus

Edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# Eitem 3

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYLLID AR FFYNONELLAU CYLLID CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU**

## Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

2. Mae rhaglen gyni Llywodraeth y DU wedi golygu bod llai i'w wario ar fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru ers 2010-11. Er gwaethaf hyn, mae sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr holl ffynonellau cyllid sydd ar gael wedi bod yn hollbwysig, ac yn parhau i fod, wrth i ni anelu at gyflawni ein huchelgeisiau i Gymru.


3. Fel y nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*, mae sut rydym yn mynd ati i gynllunio ein penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn gallu cael effaith fawr ar yr economi, helpu sefydliadau gwahanol i ddarparu eu gwasanaethau mewn un lle, a golygu bod llai o angen i unigolyn deithio.

4. Wedi ein tywys gan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a gyhoeddwyd gennym yn 2012, mae seilwaith modern o ansawdd uchel yn ffactor allweddol o ran galluogi cystadleurwydd a chynhyrchiant. Gall buddsoddiad sbarduno gweithgareddau adfywio ehangach a chefnogi cymunedau bywiog. Mae angen i'r buddsoddiad hwn gael ei gynllunio mewn ffordd ddeallus a'i weithredu'n effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.

## Cyllid DEL Cyfalaf Llywodraeth y DU

5. Y brif ffynhonnell gyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw'r gyllideb gyfalaf flynyddol a geir gan Drysorlys EM. Ar sail tebyg at ei debyg dros y degawd diwethaf, cwtogwyd ein cyllideb gyfalaf 10% mewn termau real o ganlyniad i ymdrechion parhaus Llywodraeth Geidwadol y DU i sicrhau cyni. Yn 2019-20, mae hyn yn golygu y bydd gennym £200m yn llai i'w wario nag a oedd gennym yn 2010-11, ond mae ein cynlluniau a'r angen am fuddsoddi cyfalaf yng Nghymru wedi parhau i gynyddu.

*Cyllideb Gyfalaf Llywodraeth Cymru ers 2010-11*




6. Dyma sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth iddi geisio manteisio i'r eithaf ar yr holl ffynonellau cyllid cyfalaf sydd ar gael, a datblygu ffynonellau cyllid newydd ac arloesol, gan gynnwys Model Buddsoddi Cydfuddiannol Cymru.

7. Yn 2019-20, mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys benthyca, yn dod i gyfanswm o ychydig llai na £2.3bn. Er ein bod wedi nodi ffigurau pendant ar gyfer ein cyllideb gyfalaf hyd at 2020-21, hyd nes y bydd canlyniad Adolygiad nesaf Llywodraeth y DU o Wariant yn hysbys, dim ond amcangyfrifo'r gyllideb y gallwn ei wneud ar gyfer blynyddoedd dilynol, yn seiliedig ar ragolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**DEL Cyfalaf - Trafodion Ariannol**

8. Mae cyfran gynyddol (15% ar hyn o bryd) o'n DEL cyfalaf ar ffurf Trafodion Ariannol. Un o gyfyngiadau allweddol y ffynhonnell gyllid hon yw bod 80% yn ad-daladwy i Drysorlys EM. Hefyd, dim ond i wneud benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti y gallwn ei defnyddio a dim ond i drydydd partïon lle na fyddai benthyca yn sgorio yn erbyn benthyca net y sector cyhoeddus. Mae hyn yn golygu na allwn ddefnyddio Trafodion Ariannol i ariannu gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru ei hun, grantiau, y GIG nac Awdurdodau Lleol.

9. Mae'r cyfyngiadau a osodir ar y ffynhonnell gyllid hon yn parhau i gyfyngu ar ein rhyddid i fuddsoddi yn yr hyn y byddem fel arall o bosibl wedi rhoi blaenoriaeth iddo wrth fuddsoddi. Er nad ydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i osod y cyfyngiadau hyn ar ein cyllideb gyfalaf, rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio pob punt sydd ar gael i fuddsoddi mewn seilwaith a hybu twf economaidd yn yr hirdymor. Drwy weithgareddau ychwanegol sylweddol, rydym yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan y ffynhonnell gyllid hon.

Rydym yn buddsoddi mewn cynlluniau megis 'Cymorth i Brynu - Cymru' ac yn creu amrywiol gynlluniau busnes a datblygu arloesol newydd, y mae llawer ohonynt yn atgyfnerthu'r cymorth a'r gwasanaeth rydym yn eu darparu i'r economi ledled Cymru drwy Fanc Datblygu Cymru.

**Manteisio ar ffrydiau cyllido eraill**

10. Rydym yn ystyried cyfleoedd i fanteisio ar ffynonellau cyllid eraill i gefnogi ein huchelgeisiau seilwaith yn barhaus. Er enghraifft:

**<u>Bargeinion Dinesig y DU</u>**

Llwyddwyd i sicrhau adnoddau ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth y DU (£736m), neu rydym wrthi'n eu sicrhau, o ganlyniad i geisiadau llwyddiannus i sicrhau bod polisi bargeinion dinesig a thwf Llywodraeth y DU o fudd i Gymru.

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi creu cronfa fuddsoddi o £1.2bn dros gyfnod o 20 mlynedd i'r rhanbarth, sy'n cynnwys 10 o awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru. Dros ei hoes, rhagwelir y bydd y fargen ddinesig yn creu hyd at 25,000 o swyddi newydd a bydd yn denu buddsoddiad ychwanegol o £4bn gan y sector preifat.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n werth £1.3bn, oedd yr ail fargen i'w llofnodi yng Nghymru ac mae'n anelu at roi hwb o £1.8bn i'r economi leol a chreu bron i 10,000 o swyddi newydd dros gyfnod o 15 mlynedd.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi gwneud ymrwymiad i ddarparu £120m ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru ac mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol arweiniol a rhanddeiliaid rhanbarthol yng nghanolbarth Cymru i ystyried sut y gallai Bargen Twf Canolbarth Cymru drawsnewid economi'r rhanbarth.

**Banc Buddsoddi Ewrop**

11. Ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, 'Diogelu Dyfodol Cymru', gwnaethom ddadlau y dylai'r DU barhau i fod yn bartner Banc Buddsoddi Ewrop. Mae'r Banc yn cyflwyno buddiannau uniongyrchol i'n heconomi, yn ogystal â gwella gallu economaidd mewn mannau eraill, gan felly helpu'r amgylchedd masnachu byd-eang a gefnogir gennym. Fis Chwefror diwethaf, mabwysiadodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad yn nodi bod seilwaith y DU wedi cael benthyg mwy na €118 biliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop. Nododd y gostyngiad amlwg mewn cyllid gan Fanc Buddsoddi Ewrop ers y refferendwm ac ers rhoi Erthygl 50 ar waith; gan resynu'r ffaith nad oedd y Llywodraeth Geidwadol wedi sôn fawr ddim am unrhyw gydberthynas â Banc Buddsoddi Ewrop nac unrhyw

ddewisiadau domestig amgen posibl yn y dyfodol, er na fyddwn yn gallu manteisio ar adnoddau'r Banc ar ôl Brexit.

12. Byddai'n well gennyf pe gallai'r DU barhau i fod yn bartner y Banc. Mae Llywodraeth y DU, i'r gwrthwyneb, wedi methu â nodi unrhyw gynigion ystyrlon ar gydberthynas â Banc Buddsoddi Ewrop yn y dyfodol, nac unrhyw ddewisiadau domestig amgen. Byddwn yn parhau i ddadlau y dylid cyflwyno mandad er mwyn sicrhau y gall y DU barhau i fenthyca gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar ôl i ni adael yr UE fan leiaf. Mae swyddogion wedi cynnig y polisïau hyn fel rhan o Adolygiad Llywodraeth y DU o Gyllido Seilwaith; ac rwyf innau wedi enwebu arbenigwr annibynnol ar gyfer y panel sy'n cynnal yr Adolygiad.

**Cyllid Ewropeaidd**

13. Mae Cymru yn cael budd sylweddol o gyllid yr UE ac mae rhaglenni sy'n rhan o'r Cronfeydd Strwythurol ar hyn o bryd yn werth £2bn[1], gan lywio cyfanswm o bron i £3.2bn o fuddsoddiad dros y cyfnod cyllido rhwng 2014 a 2020.

14. Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw'r prif adnodd a gynigir gan yr UE ar gyfer mynd i'r afael ag anghysondebau economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol sylweddol ledled Ewrop, a chefnogi buddsoddi mewn swyddi a thwf. O fewn y cronfeydd hyn, daw'r brif ffynhonnell buddsoddi cyfalaf o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n werth £1bn. Mae rhaglenni presennol ERDF yn cefnogi buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â phedair blaenoriaeth: Ymchwil ac Arloesi, Cystadleurwydd Busnesau, Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni a Chysylltedd (trafnidiaeth a datblygu trefol cynaliadwy).

15. O dan y flaenoriaeth Cysylltedd, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi cymeradwyo gwerth tua £91m o'r ERDF tuag at wella ffyrdd sy'n gysylltiedig â'r A55 yng Ngogledd Cymru a'r A40 yn Ne Cymru; dros £182m ar drafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys tua £165m ar Fetro De Cymru); dros £55m ar fand eang cyflym; a thros £142m ar seilwaith â blaenoriaeth ranbarthol sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol.

16. O'r cyfanswm a fuddsoddwyd gan y cronfeydd strwythurol mewn prosiectau hyd yn hyn, mae £1.34bn (40%) yn cefnogi unigolion, mae £981m (29%) yn helpu busnesau, ac mae £117m (4%) ar gyfer yr amgylchedd, £839m (25%) ar gyfer seilwaith strategol a £69m (2%) ar gyfer cymorth technegol.

17. Mae rhaglenni ERDF WEFO ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 91% yn rhwymedig ar hyn o bryd.

18. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur polisi ym mis Rhagfyr 2017 yn nodi ein dull gweithredu mewn perthynas â datblygu polisi buddsoddi

[1] Cyfradd gyfnewid o €1.17/£1

rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE. Credwn fod yn rhaid ailaddasu'r llinell sylfaen ar gyfer taliad grant bloc y DU i Gymru adeg gadael yr UE er mwyn adlewyrchu lefel wirioneddol y cronfeydd a gollir yng Nghymru o ganlyniad i Brexit a chan ystyried cyllid y byddai Cymru wedi gallu disgwyl yn rhesymol ei gael fel arall o ffynonellau o fewn yr UE. Yn ogystal, rhaid i unrhyw system a ddaw yn lle'r un bresennol barchu'r setliad datganoli, gan sicrhau bod penderfyniadau am fuddsoddi rhanbarthol yn dal i gael eu gwneud yng Nghymru a'u bod yn adlewyrchu ein sefyllfa benodol ni o ran polisïau a deddfwriaeth.

**Benthyciadau'r Llywodraeth (gan gynnwys terfynau benthyca)**

19. Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bwerau i Lywodraeth Cymru fenthyca dros yr hirdymor er mwyn gwneud buddsoddiadau cyfalaf. I ddechrau, gallai Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125m y flwyddyn o 2018-19 o fewn cap cyffredinol o £500m. Cynyddwyd y terfynau hyn i £150m y flwyddyn a £1bn yn gyffredinol fel rhan o'r cytundeb fframwaith cyllidol â Llywodraeth y DU, ynghyd â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru o 2019-20.

20. Gall Llywodraeth Cymru fenthyca o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru) neu drwy fenthyciad masnachol (yn uniongyrchol gan fanc neu fenthycwr arall).

21. Mae benthyca cyfalaf yn ein helpu i reoli ein hadnoddau mewn ffordd fwy effeithlon a chyflawni ein nodau o ran seilwaith – gan weithio ochr yn ochr â'n cyllideb gyfalaf bresennol a'n cynlluniau ariannu arloesol. Fodd bynnag, nid arian ychwanegol yw benthyciadau cyfalaf ac mae'n rhaid eu had-dalu. Rydym wedi ystyried yn ofalus sut rydym yn defnyddio'r pwerau hyn, gan edrych ar flaenoriaethau Cymru mewn modd strategol.

22. Mae llog yn daladwy ar unrhyw fenthyciadau a drefnir gan Lywodraeth Cymru ar y gyfradd sydd ar gael ar yr adeg y caiff y benthyciad ei roi. Caiff y broses o ad-dalu'r prifswm ei hariannu gan dderbyniadau treth i Gronfa Gyfunol Cymru; mae ad-dalu llog benthyciadau yn gost i Lywodraeth Cymru ac ariennir y gost honno drwy gyllid refeniw a ddarperir drwy'r grant bloc. Mae ad-dalu'r prifswm a'r llog yn gostwng lefel yr adnoddau sydd ar gael i'w gwario dros gyfnod yr ad-daliadau.

**Bondiau**

23. Ar 1 Rhagfyr 2018, cafodd Llywodraeth Cymru bwerau newydd i ddyroddi bondiau adbrynadwy er mwyn helpu i ariannu prosiectau seilwaith cyfalaf. Ar adeg pan fo ein cyllidebau cyfalaf yn parhau i leihau, mae'r pwerau ychwanegol hyn yn rhoi'r gyfres lawn o ysgogiadau benthyca i ni er mwyn i ni allu parhau i fuddsoddi yn ein cynlluniau seilwaith uchelgeisiol i Gymru.

24. Nid yw'r gallu i ddyroddi bondiau yn cynyddu ein gallu i fenthyca. Byddai unrhyw gronfeydd a godwyd gan fond Llywodraeth Cymru (neu

fond y gellir ei briodoli i is-gwmni o dan berchenogaeth lwyr, megis Trafnidiaeth Cymru) yn cael eu cyfrif yn erbyn ein terfyn benthyca. Rhaid ad-dalu'r bondiau â llog, yn yr un modd â mathau eraill o fenthyciadau, a byddant yn cael effaith ar y refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ariannu gwasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd.

25. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pŵer hwn oherwydd gall Llywodraeth Cymru fenthyca drwy'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol, a fyddai'n gyffredinol yn codi cyfraddau llog is na'r cyfraddau a fyddai'n cael eu codi ar un o fondiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r pŵer i ddyroddi bondiau yn bwysig o hyd gan ei fod yn golygu bod ffordd arall y gall Llywodraeth Cymru fenthyca arian pe byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu cynyddu cost benthyca. Os bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn penderfynu dyroddi bondiau Cymru, byddai angen ystyried y systemau a'r prosesau y byddai eu hangen i'w rheoli'n effeithiol.

**Pwerau benthyca cyrff Llywodraeth Cymru**

26. Gan fod y rhan fwyaf o gyrff Llywodraeth Cymru wedi'u hariannu'n bennaf yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, caiff unrhyw fenthyca gan y cyrff hynny ei reoli'n gaeth a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff ei ganiatáu. Bydd unrhyw fenthyca gan gyrff Llywodraeth Cymru o fewn ffin gyllidebol llywodraeth ganolog yn sgorio yn erbyn yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac a gynhwysir o fewn terfyn benthyca cyffredinol Llywodraeth Cymru fel y'i nodir uchod.

**Pwerau benthyca awdurdodau lleol (ALlau)**

27. Er nad ydynt yn un o gyrff Llywodraeth Cymru, ers 1 Ebrill 2004 mae ALlau yng Nghymru wedi gallu benthyca heb ganiatâd gan y Llywodraeth wrth ymgymryd â'u dyletswyddau o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ond mae'n ofynnol iddynt, yn ôl '*Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003'*, ystyried y Cod Materion Ariannol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 hefyd yn gosod dyletswydd ar ALlau i bennu'r swm y gallant fforddio ei fenthyca, ac adolygu'r swm hwnnw yn barhaus; ac yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddiffinio'r ddyletswydd honno yn fanylach mewn rheoliadau, a all ei gwneud yn ofynnol i ALlau ystyried codau ymarfer penodol.

28. Mae ALlau yn benthyca o nifer o ffynonellau, gan gynnwys ALlau eraill, y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a banciau masnachol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'u dyledion yn ddyledus i awdurdodau eraill neu'r PWLB, lle y gellir sicrhau'r cyfraddau gorau. Yn ogystal, bydd gan bob awdurdod ei bolisi Rheoli'r Trysorlys ei hun a phroffil risg derbyniol. Yn unol â chyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2017-18, cyfanswm dyledion ALlau sy'n

gysylltiedig â benthyciadau gan PWLB, banciau a ffynonellau eraill (heb gynnwys gorddrafft) yw £5.4bn.

29. Mae awdurdodau lleol yn ymrwymo i drefniadau benthyca hirdymor er mwyn ariannu buddsoddiadau mawr mewn amrywiaeth o brosiectau megis adeiladu ysgolion a chaffael cyfarpar i ddarparu gwasanaethau. Fe'u defnyddiwyd yn helaeth gan awdurdodau i gyflymu rhaglenni buddsoddi mewn ysgolion; ariannu'r gwaith o osod arwyneb newydd ar ffyrdd; prosiectau seilwaith untro (e.e. adnewyddu pontydd) a hefyd yn gyffredinol i roi cymorth i raglenni cyfalaf yn gyffredinol lle ceir bwlch ariannu.

30. Y prif amodau sy'n gysylltiedig â benthyca yw bod yn rhaid i'r awdurdod arddel ei farn broffesiynol ei hun er mwyn penderfynu bod y cyllid a geir yn "Gynaliadwy, yn Fforddiadwy ac yn Ddarbodus" gan ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol**

31. Rydym yn ymrwymedig i roi tri chynllun ar waith gan ddefnyddio'r math hwn o gyllid arloesol – cwblhau'r gwaith o ddeuoli'r A465; buddsoddiad ychwanegol yng ngham nesaf rhaglen Ysgolion ac Addysg y 21ain Ganrif; a chanolfan ganser newydd Felindre.

32. Gyda'i gilydd, mae gan y cynlluniau hyn werth cyfalaf o fwy na £1bn, ac ni fyddai modd eu fforddio o'n cyllidebau cyfalaf craidd presennol. Pe na fyddem wedi datblygu'r model, byddai'n rhaid i brosiectau fel hyn aros eu tro hyd nes y byddai digon o gyfalaf ar gael.

33. O'r cychwyn cyntaf, ein bwriad oedd sicrhau bod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn hyrwyddo budd y cyhoedd gan ddefnyddio'r diffiniad ehangaf posibl o'r term hwnnw. I'r perwyl hwnnw, bydd y model yn cyflawni canlyniadau ychwanegol cadarnhaol mewn perthynas â llesiant, gwerth am arian a thryloywder; ac wrth wneud hynny, bydd yn osgoi llawer o'r beirniadaethau a anelwyd at fathau hanesyddol o bartneriaethau cyhoeddus-preifat - mewn rhai achosion, beirniadaethau yr oedd Llywodraeth Cymru ymhlith y cyntaf i'w codi.

34. Dim ond i ariannu prosiectau neu raglenni â graddfa gyfalaf ddigonol i ddenu diddordeb arianwyr a chynnig gwerth am arian i drethdalwyr y defnyddir y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

35. Bydd yn rhaid i arfarniad buddsoddi trylwyr y *Model Pum Achos*, sef adnodd arfarnu a achredwyd yn rhyngwladol ac y mae Llywodraeth Cymru yn gyd-berchen arno gael ei gynnal ar bob cynllun o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae Gweinidogion Cyllid y G20 wedi mabwysiadu egwyddorion y model fel y sail ar gyfer safon fyd-eang ar gyfer arfarnu buddsoddiadau seilwaith. Rydym hefyd wedi datblygu adnodd sicrhau prosiectau newydd y bydd pob cynllun o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ddarostyngedig iddo - gwiriadau Pwynt Cymeradwyo Masnachol.

36. Er mwyn cynyddu gwerth am arian ein cynlluniau, rydym wedi gwneud penderfyniad bwriadol i beidio â defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol i ariannu gwasanaethau meddal, megis glanhau ac arlwyo, sef un o'r beirniadaethau mwyaf a wnaed o gontractau blaenorol y Fenter Cyllid Preifat. Ni chaiff ei ddefnyddio ychwaith i ariannu cyfarpar cyfalaf. Bydd y Llywodraeth yn buddsoddi swm bach o gyfalaf risg ym mhob cynllun, gan sicrhau bod y sector cyhoeddus yn elwa ar unrhyw adenillion a geir ar fuddsoddiad.

37. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gan Gomisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) bod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn fodel Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat sy'n dilyn egwyddorion Pobl yn Gyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ym mis Mehefin y byddai'n mabwysiadu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol i gefnogi ei blaenoriaethau ei hun o ran seilwaith. Wrth wneud hynny, nododd bod y model a ddatblygwyd yng Nghymru wedi creu manteision o ran gwerth am arian ac ychwanegedd.

**Derbyniadau cyfalaf**

38. Delir asedau tir ac eiddo gan Weinidogion Cymru yn bennaf er mwyn bodloni gofynion gweithredol / polisi. Mae hynny'n cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweinyddu, seilwaith trafnidiaeth ynghyd â chymorth ar gyfer tai a busnes. Fodd bynnag, er na chaiff y portffolio ei ddal yn gyffredinol gyda'r bwriad o gynhyrchu adenillion arian parod, rydym yn cydnabod y rhan bwysig y gall ei chwarae wrth sicrhau'r adenillion cyffredinol uchaf posibl i bobl Cymru.

39. Yn dilyn adolygiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru o reoli asedau yn y sector cyhoeddus, mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol wedi datblygu ymhellach, gan gynnwys creu strategaeth rheoli asedau corfforaethol a chynlluniau rheoli asedau adrannol. Gellir categoreiddio incwm o eiddo yn fras o dan dri phennawd (isod) a chaiff unrhyw symiau a dderbynnir eu hailgylchu er mwyn ategu gwaith polisi pellach yn yr adrannau sy'n gyfrifol am yr ased.

<u>**Gwerthiannau**</u>
Fel arfer, caiff asedau nad oes eu hangen mwyach i gefnogi busnes ac nad oes eu hangen ar y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru (gwarged) eu gwerthu drwy ddulliau marchnata agored. Rydym yn dilyn canllawiau cyhoeddedig (canllawiau mewnol a chanllawiau Trysorlys EM) er mwyn sicrhau'r adenillion uchaf posibl sydd weithiau'n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud buddsoddiadau bach yn yr ased er mwyn hybu ei botensial.

Caiff rhai asedau eu gwerthu er mwyn cefnogi amcan polisi penodol yn uniongyrchol. Er enghraifft, caiff asedau a ddaliwyd yn flaenorol gan Awdurdod Tir Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) gynt eu gwerthu er mwyn cynyddu'r cymorth y gallant ei roi ym maes datblygu busnes neu hwyluso tai fforddiadwy i'r eithaf. Fodd bynnag, rydym yn

cael ein tywys o hyd gan yr egwyddorion sy'n gofyn am waredu ased er mwyn dangos gwerth cyffredinol am arian.

**Prydlesu**

Er mwyn sicrhau bod ein swyddfeydd yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl, mae cytundebau ar waith lle y mae cyrff eraill o'r sector cyhoeddus yn gwneud defnydd o'n hadeiladau. Yn unol ag arfer gorau, gwneir hyn ar sail adennill costau. Mae grwpiau o eiddo a ddelir dros dro tra'n aros iddynt gael eu defnyddio mewn modd gweithredol. Byddai hyn yn cynnwys tir ac adeiladau yr oedd yn ofynnol i ni eu prynu o dan ddeddfwriaeth malltod cynllunio cyn ymgymryd â gwaith ar briffyrdd. Hyd nes y bydd y cynllun yn barod i fynd rhagddo, caiff yr ased ei brydlesu (yn unol â thelerau'r farchnad) sy'n darparu incwm, ond yn ogystal â hynny, mae deiliad yn sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel. Er mwyn atgyfnerthu gweithgareddau datblygu busnes a chyflogaeth, caiff rhai unedau diwydiannol (yn bennaf) eu dal er mwyn llenwi bylchau yn y farchnad eiddo. Caiff unedau eu prydlesu yn amodol ar ddilysu'r telerau a gynigir yn annibynnol.

**Adfachu / Gorsymiau**

Mae rhai asedau wedi'u gwerthu / trosglwyddo yn ddarostyngedig i amodau o'n plaid a all esgor ar dderbyniadau pellach yn y dyfodol. Yn nodweddiadol, byddai gwelliannau mewn gwerth drwy newid defnydd neu newidiadau cynllunio gwerthfawr yn arwain at daliadau ychwanegol.

**Dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â defnyddio ffynonellau cyllid cyfalaf**

40. Mae'r gostyngiad yn ein cyllideb gyfalaf yn golygu bod angen i ni barhau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o lenwi'r bwlch cyfalaf a sicrhau ein bod yn defnyddio ein ffynonellau cyllid cyfalaf i'r eithaf. Yr egwyddor sy'n sail i ddefnyddio cyfalaf yng Nghymru yw y byddwn bob amser yn defnyddio'r mathau rhataf o gyfalaf yn gyntaf cyn symud ymlaen i ddefnyddio ffynonellau eraill.

41. Byddwn bob amser yn defnyddio cyfalaf confensiynol, gan gynnwys cyfalaf trafodion ariannol yn gyntaf, gan sicrhau ein bod yn defnyddio pob ceiniog sydd ar gael i Gymru, i ariannu ein hymrwymiadau seilwaith. Mae'r ail ffynhonnell gyfalaf sydd ar gael i ni yn gysylltiedig â'r cronfeydd Ewropeaidd a ddaw i Gymru - er enghraifft, rydym wrthi'n gweithio ar sail cyfraniad o £159m gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i gyflwyno Metro De Cymru fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

42. Wedyn byddwn yn defnyddio'r pwerau benthyca newydd yr ydym wedi llwyddo i'w sicrhau yng Nghymru – mae ein cyllideb yn ystyried y benthyciadau cyfalaf sydd ar gael i ni dros gyfnod y gyllideb hon hyd at 2020-21 i ariannu ein rhaglen seilwaith.

43. Mae ein ffynhonnell gyfalaf nesaf yn gysylltiedig â chefnogi benthyca ymhlith cyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a

chymdeithasau tai – byddwn yn defnyddio'r ffynonellau hyn er mwyn helpu i gyflawni ein targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

44. Cyllid arloesol yw ein ffynhonnell gyfalaf olaf, gan gynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a ddatblygwyd yng Nghymru ac a gaiff ei ddefnyddio i gyflwyno rhaglen waith bellach gwerth £1bn, gan gynnwys Canolfan Ganser newydd Felindre, rhan sylweddol o Fand B o raglen Ysgolion ac Addysg y 21ain Ganrif ac adrannau 5 a 6 o gynllun ffordd Blaenau'r Cymoedd.

**Casgliad**

45. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr holl ysgogiadau sydd ar gael i ni er mwyn cynyddu cyllid cyfalaf a blaenoriaethu ein buddsoddiadau mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r budd mwyaf yn unol â'n blaenoriaethau. Felly, mae sicrhau ein bod yn nodi'r holl ffynonellau cyllid cyfalaf sydd ar gael ac yn eu defnyddio'n effeithiol yn parhau'n amcan allweddol i Lywodraeth Cymru er mwyn ein galluogi i ymgymryd â'n rôl hanfodol wrth roi prosiectau seilwaith mawr ar waith ledled Cymru.

46. O ganlyniad uniongyrchol i'r hyn a gyflawnwyd gennym ers cyhoeddi’r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, rydym wedi gwneud dros **£15bn** o ddyraniadau cyfalaf, wedi chwarae rhan allweddol wrth greu cyfleoedd buddsoddi ychwanegol sylweddol yn sgil benthyca, ac wedi creu'r amodau priodol i ddenu buddsoddiad hanfodol gan y sector preifat. Mae llawer i'w wneud o hyd felly byddwn yn parhau i chwilio am yr holl ffynonellau cyllid sydd ar gael a'u defnyddio i'r eithaf, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn hwyluso'r buddsoddiadau mwyaf effeithiol yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido.

**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

2 Gorffennaf 2019

Annwyl Llyr

**Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2019 ac ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ("**Deddf 2013**").

Mae eich llythyr yn gofyn i'r Comisiwn baratoi cyflwyniad ysgrifenedig yn manylu ar y canlynol:

- costau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill sydd ynghlwm wrth gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru (a nodir yn Rheol Sefydlog 18.10-18.11),
- yr amserlenni ar gyfer y costau hynny, ac
- unrhyw sylwadau neu faterion a nodwyd mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf hyd yma (ee o ran y drefn ffioedd).

Rydym wedi paratoi ymateb sy'n rhoi'r manylion hyn ac mae hwn i'w weld yn yr Atodiad i'r llythyr hwn; gobeithio y bydd yn cynnwys y wybodaeth rydych yn ei cheisio.

Bydd swyddogion y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r dyletswyddau y mae Deddf 2013 yn eu gosod ar y Cynulliad hefyd ar gael ar 11 Gorffennaf i egluro'r sefyllfa ymhellach ac i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SulafaThomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SulafaThomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Yn ôl yr arfer, cofiwch roi gwybod os bydd angen rhagor o wybodaeth ar eich Pwyllgor.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

**Atodiad 1**

Costau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill sydd ynghlwm wrth gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru , fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10-18.11 isod.

Mae'r rhain yn deillio o'r gofynion statudol y mae Deddf 2013 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn eu gosod ar y Comisiwn, ac mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn cael ei chynnwys yng nghyllideb y Comisiwn.

Ymdrinnir â gofynion penodol Rheolau Sefydlog 18.10-11 yn unigol. Nodir amcangyfrif o gost pob swyddogaeth, ynghyd â phryd, a pha mor aml, y bydd y gost honno'n cael ei hysgwyddo, ac mae'r wybodaeth yn adlewyrchu'r costau sydd wedi'u hysgwyddo ers cyflwyno Deddf 2013. Mae crynodeb o'r costau hyn yn Atodiad 2. Os bydd materion perthnasol eraill yn codi mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn, nodir y materion hyn hefyd.

| **Rheol Sefydlog 18.10 (i)** | **Craffu ar yr amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Darparu cymorth i'r Pwyllgor Cyllid, gan gynnwys paratoi papurau briffio ac adroddiad, ynghyd â gofynion ad hoc.
**Cost i'r Comisiwn:** £4,600
**Pa mor aml:** Bob blwyddyn
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| **Rheol Sefydlog 18.10 (ii)** | **Craffu ar unrhyw gynigion cyllideb atodol (a Memorandwm Esboniadol atodol Swyddfa Archwilio Cymru) sy'n diwygio symiau a awdurdodwyd yn flaenorol gan y Cynulliad mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £500
**Pa mor aml:** Bob blwyddyn (dwywaith y flwyddyn o bosibl)
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| Rheol Sefydlog 18.10 (iii) | Craffu ar unrhyw wariant gan Swyddfa Archwilio Cymru sydd uwchlaw'r gyllideb a gymeradwywyd |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** Dim
**Pa mor aml:** Heb ei ddefnyddio eto
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| Rheol Sefydlog 18.10 (iv) | Gwaith y Pwyllgor Cyllid o oruchwylio'r broses o benodi a diswyddo Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a gwneud argymhellion i'r Cynulliad. |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid a'r panel penodi, goruchwylio'r broses recriwtio, y broses sifftio, y broses gyfweld, paratoi contractau etc.
**Cost i'r Comisiwn:** £48,400
**Pa mor aml:** Bob wyth mlynedd yn achos Archwilydd Cyffredinol Cymru ac o leiaf bob pedair blynedd yn achos Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.
**Ystyriaethau eraill**

Mae'r Pwyllgor wedi nodi ei fod yn dymuno cyflogi rhywun i ddod o hyd i unigolyn cymwys y tro nesaf y bydd yn recriwtio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y gost, yn fras, fydd £30,000, a chaiff ei ariannu o gyllideb y Comisiwn.

Mae Deddf 2013[1] yn ei gwneud yn ofynnol i gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru gael ei benodi gan y Cynulliad o blith aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru. Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi ei bod yn bosibl dehongli'r darpariaethau hynny yn Neddf 2013 sy'n ymdrin ag ymestyn penodiad Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd gwahanol.

| Rheol Sefydlog 18.10 (v) | Penodi aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid a'r panel penodi, goruchwylio'r broses recriwtio, y broses sifftio, y broses gyfweld, paratoi contractau etc.
**Cost i'r Comisiwn:** £10,100

[1] Atodlen 1, Paragraff 5(1)

**Pa mor aml:** Bob rhyw 12 i 18 mis
**Ystyriaethau eraill**

Cafwyd problemau wrth weithredu'r gofynion hynny yn Neddf 2013[2] sy'n ymwneud ag ailbenodi'r aelodau anweithredol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sydd am gael eu hailbenodi i'r Bwrdd gymryd rhan mewn cystadleuaeth lawn gydag ymgeiswyr allanol. Gallai fod yn werth ystyried a fyddai'n briodol egluro darpariaethau perthnasol Deddf 2013 mewn perthynas ag aelodau presennol o'r Bwrdd sy'n dymuno gwasanaethu am ail dymor yn olynol.

| **Rheol Sefydlog 18.10 (vi)** | **Penodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid, gan oruchwylio ee y broses dendro a ddefnyddir yn ystod y penodiad, a thrafod y dogfennau tendro a chytundebol y bydd Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyflenwr a ffefrir yn ymrwymo iddynt.
**Cost i'r Comisiwn:** £26,600
**Pa mor aml:** Bob pedair blynedd
**Ystyriaethau eraill**

Mae Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol y Comisiwn wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith mewn perthynas â phenodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru (ar ddau achlysur gwahanol, yn 2014 a 2018 yn y drefn honno). Oherwydd natur gymhleth y trefniadau tairochrog rhwng y Comisiwn, Swyddfa Archwilio Cymru a chyflenwr y gwasanaethau archwilio, bu'n rhaid i'r Gwasanaethau Cyfreithiol gynorthwyo â'r prosiectau hyn, a bu'n rhaid cael sicrwydd cyfreithiol allanol arbenigol sylweddol hefyd (a ariannwyd o gyllideb y Comisiwn). Cafodd y Comisiwn gyngor cyfreithiol allanol yn ystod proses benodi 2018 a chostiodd hynny £19,500.

Mae Tîm Caffael y Comisiwn hefyd wedi rhoi sicrwydd ynglŷn â phroses y ddau dendr diwethaf mewn perthynas â phenodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru. Y ddau dro diwethaf, cafodd y broses dendro ei chynnal drwy fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron Llywodraeth y DU. Cafodd y Comisiwn weld a chyfrannu at y fanyleb, ond nid oedd yn rhan o'r broses o werthuso'r ymatebion a ddaeth i law, gan mai dim ond un cais a ddychwelwyd ar y ddau achlysur.

[2] Atodlen 1 paragraff 6(2)

Pe bai'r broses dendro'n cael ei chynnal oddi allan i broses fframwaith, gallai hynny arwain at ragor o geisiadau gan gyflenwyr, ond byddai hyn hefyd yn arwain at gostau staff uwch i'r Comisiwn.

Gallai fod yn werth ystyried a fyddai diwygio Deddf 2013 yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer penodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru.

| **Rheol Sefydlog 18.10 (vii)** | **Penderfynu ar dâl Archwilydd Cyffredinol Cymru, cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru** |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £2,200
**Pa mor aml:** Bob 12-18 mis yn achos penodi Aelodau o Swyddfa Archwilio Cymru, o leiaf bob pedair blynedd yn achosi penodi'r Cadeirydd, ac o leiaf bob wyth mlynedd yn achos penodi'r Archwilydd Cyffredinol. Gan fod y penodiadau hyn yn digwydd ar wahanol adegau, yn ymarferol, mae hyn yn digwydd bob 18 mis.
**Ystyriaethau eraill**

Mae'r Comisiwn wedi wynebu anawsterau oherwydd bod cyflog yr Archwilydd Cyffredinol wedi'i gysylltu â mynegai ffynonellau allanol y gellid ei newid yn sylweddol neu ei ddileu. Gallai fod yn werth ystyried dull gwahanol o gynyddu cyflog yr Archwilydd yn y dyfodol, fel rhoi codiad sefydlog iddo/iddi.

Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori ynghylch tâl arfaethedig y swyddogion hyn[3][4][5] cyn penderfynu ar y trefniadau. Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi'r problemau ymarferol y mae'r Comisiwn wedi'u hwynebu wrth ddewis yr ymgynghorai priodol mewn perthynas â thaliadau Aelodau Swyddfa Archwilio Cymru (y cyfeirir atynt isod), ac, yn fwy cyffredinol, a yw'r gofynion i ymgynghori yn dal yn briodol.

---

[3] Mae adran 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru cyn pennu'r trefniadau ar gyfer tâl Archwilydd Cyffredinol Cymru

[4] Mae paragraff 5(2) yn Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru cyn pennu'r trefniadau ar gyfer tâl cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

[5] Mae paragraff 9(1) yn Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori ag "unigolyn priodol sy'n goruchwylio penodiadau cyhoeddus" cyn pennu tâl (a thelerau eraill) holl aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru.

| Rheol Sefydlog 18.10 (viii) | Penderfynu ar delerau penodi aelodau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £500
**Pa mor aml:** Adolygiad cyfnodol yn ôl yr angen
**Ystyriaethau eraill**

Mae Deddf 2013[6] yn caniatáu i'r Cynulliad bennu telerau penodi aelodau Swyddfa Archwilio Cymru. Ers rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith, mae'r Comisiwn wedi datblygu dogfennaeth safonol ar gyfer penodi'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill. Caiff y telerau eu hadolygu bob hyn a hyn, a cheir sicrwydd cyfreithiol allanol lle bo angen, a gofynnir i'r Pwyllgor eu cymeradwyo fel rhan o'r broses o benodi pobl i'r swyddi hyn. Costiodd yr ymarfer sicrwydd cyfreithiol allanol diweddaraf £500 i'r Comisiwn.

Roedd yr ymarfer sicrwydd diweddaraf yn cynnwys diweddaru'r telerau safonol i gynnwys dull o addasu taliadau'n awtomatig. Drwy'r dull hwn, gellir codi tâl blynyddol aelodau cyfredol y Bwrdd os yw'r Pwyllgor yn penodi aelodau newydd i'r Bwrdd ar gyfradd uwch.

Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â "pherson priodol sy'n goruchwylio penodiadau cyhoeddus" cyn pennu telerau penodi. Mae swyddogion y Comisiwn wedi cael anawsterau wrth ddewis ymgynghorai addas er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn. Felly, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a ddylid diwygio'r gofyniad, neu ei ddileu'n gyfan gwbl.

| Rheol Sefydlog 18.10 (ix) | Cymeradwyo'r Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £700
**Amlder:** Anaml – bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad o'r Cod ym mis Gorffennaf 2019, a hynny am y tro cyntaf ers rhoi Deddf 2013 ar waith.
**Ystyriaethau eraill:** Dim

[6] Para 8(1) of Schedule 1.

| Rheol Sefydlog 18.10 (x) | Cymeradwyo cynllun codi ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £600
**Pa mor aml:** Bob blwyddyn
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| Rheol Sefydlog 18.10 (xi) | Cyhoeddi rhestr o swyddi a threfniadau'n ymwneud â gweithgareddau cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Darparu cefnogaeth i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £2,000
**Pa mor aml:** Unwaith, mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd yn rheolaidd
**Ystyriaethau eraill**
Mae adran 5(3) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi cyfyngedig neu drefniadau y byddai angen i gyn Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r Cynulliad cyn derbyn swydd o'r fath neu ymrwymo i drefniadau o'r fath ar ôl gadael ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol. Ystyriodd y Pwyllgor y gofyniad hwn yn 2017 cyn penodi'r Archwilydd Cyffredinol presennol a phenderfynodd beidio â nodi unrhyw ofynion.

Fodd bynnag, o dan adran 5(3), rhaid i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o'r fath. Yn unol â hynny, cyhoeddodd y Pwyllgor ddogfen yn cadarnhau nad oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar gyn Archwilydd Cyffredinol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo neu iddi ymgynghori â'r Cynulliad, er mwyn osgoi torri gofynion y ddeddfwriaeth.

Efallai y bydd y Pwyllgor felly'n dymuno ystyried y manteision a fyddai ynghlwm wrth wneud y gofyniad i gyhoeddi rhestr yn ddewisol, er mwyn osgoi gorfod cyhoeddi dogfen debyg o werth cyfyngedig yn y dyfodol.

| Rheol Sefydlog 18.11 (i) | Craffu ar y Cynllun Blynyddol a osodwyd ar y cyd gerbron y Cynulliad gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £600
**Pa mor aml:** Bob blwyddyn
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| | |
|---|---|
| **Rheol Sefydlog 18.11 (ii)** | **Cynghori archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr archwiliadau sydd i'w cynnal o'r adnoddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Cymru yn eu defnyddio** |

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £300
**Pa mor aml:** Unwaith
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| | |
|---|---|
| **Rheol Sefydlog 18.11 (iii)** | **Craffu ar yr adroddiadau a osodwyd gerbron y Cynulliad gan archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru** |

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth a chyngor i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £700
**Pa mor aml:** Bob blwyddyn
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| | |
|---|---|
| **Rheol Sefydlog 18.11 (iv)** | **Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol ac unrhyw adroddiadau dros dro a osodwyd gerbron y Cynulliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru** |

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** £3,600
**Pa mor aml:** Bob blwyddyn
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| | |
|---|---|
| **Rheol Sefydlog 18.11 (v)** | **Penderfynu ar ddyddiadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru osod adroddiadau dros dro ar y cyd** |

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyllid
**Cost i'r Comisiwn:** Dim
**Pa mor aml:** Anaml
**Ystyriaethau eraill:** Dim

| | |
|---|---|
| **Rheol Sefydlog 18.11 (vi)** | **Pennu cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru** |

**Gweithgaredd y Comisiwn:** Paratoi memorandwm swyddog cyfrifo drafft i'r Pwyllgor ei gymeradwyo.
**Cost i'r Comisiwn:** £2,200
**Pa mor aml:** Bob 8 mlynedd, pan gaiff Archwilydd Cyffredinol newydd ei benodi
**Ystyriaethau eraill:** Dim

**Sylwadau neu faterion eraill**

- unrhyw sylwadau neu faterion a nodwyd hyd yma mewn perthynas â rhoi'r Ddeddf ar waith (ee o ran y drefn ffioedd).

**Y drefn ffioedd**

Fel y nodwyd yn ein llythyr dyddiedig 9 Mai, dim ond gwaith archwilio ariannol y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r Comisiwn. Felly, nid yw rhai o'r cymhlethdodau a amlinellir ym mharagraffau 3.4-3.6 yn nogfen y Cynigion yn berthnasol i'r Comisiwn gan nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymgymryd ag ystod lawn o swyddogaethau archwilio yn y Comisiwn.

Drwy ymdrechion tîm cyllid y Comisiwn ar y cyd â thîm ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru, rydym wedi sicrhau arbedion, rhywfaint o ostyngiad yn y ffi ac ad-daliadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly ni chawsom unrhyw ysgogiad i beidio â gwella effeithlonrwydd y broses archwilio fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.3 o ddogfen y Cynigion.

Fel y nodwyd eisoes, o safbwynt y Comisiwn, eglurdeb a thryloywder yw'r agweddau pwysicaf ar unrhyw drefniadau codi ffioedd yn y dyfodol. Fel un o gleientiaid Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, byddai'r Comisiwn yn croesawu trefn a fyddai'n sicrhau bod modd cael amcangyfrif prydlon o'r ffioedd ac yn sicrhau bod trosolwg o'r gwaith cyfrifo a'r fethodoleg a ddefnyddir i bennu'r ffi arfaethedig yn parhau'n dryloyw a bod Arweinydd Ymgysylltu perthnasol yn Swyddfa Archwilio Cymru yn esbonio'r broses honno.

**Atodiad 2 Crynodeb o'r costau**

Mae costau staff yn cynnwys bras amcan o amser staff ac argostau. Mae costau eraill yn cynnwys costau hysbysebu yn ystod prosesau recriwtio a sicrwydd cyfreithiol allanol.

| | Gofynion y Rheolau Sefydlog | Pa mor aml | Costau staff | Costau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **18.1** | Rhaid i Bwyllgor cyfrifol ystyried / rhoi cyngor ynghylch: | | | | |
| **i)** | Amcangyfrif o incwm a gwariant | Bob blwyddyn | 4,600 | - | 4,600 |
| **ii)** | Cynigion cyllideb atodol | Bob blwyddyn | 500 | - | 500 |
| **iii)** | Gwariant sydd uwchlaw'r gyllideb | | - | - | - |
| **iv)** | Penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | Bob 4 neu 8 mlynedd | 29,100 | 19,300 | 48,400 |
| **v)** | Penodi aelodau anweithredol | Bob 18 mis | 10,100 | - | 10,100 |
| **vi)** | Penodi archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru | Bob 4 blynedd | 7,100 | 19,500 | 26,600 |
| **vii)** | Tâl Archwilydd Cyffredinol Cymru / Cadeirydd ac aelodau anweithredol | Bob 4 neu 8 mlynedd | 2,200 | - | 2,200 |
| **Viii)** | Telerau penodi eraill mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru | Bob 18 mis | - | 500 | 500 |
| **ix)** | Cod Ymarfer | Anaml | 700 | - | 700 |
| **x)** | Cynllun codi ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru | Bob blwyddyn | 600 | - | 600 |
| **xi)** | Cyflogaeth cyn Archwilwyr Cyffredinol | Anaml | 2,000 | - | 2,000 |
| **18.1** | Gall Pwyllgor cyfrifol ystyried / rhoi cyngor ynghylch: | | | | |
| **i)** | Y cynllun blynyddol | Bob blwyddyn | 600 | - | 600 |
| **ii)** | Gwaith a wnaed gan archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru | Anaml | 300 | - | 300 |
| **(iii)** | Adroddiadau a osodwyd gan archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru | Bob blwyddyn | 700 | - | 700 |
| **(iv)** | Adroddiad blynyddol ac adroddiadau dros dro | Bob blwyddyn | 3,600 | - | 3,600 |
| **(v)** | Dyddiadau ar gyfer gosod adroddiadau dros dro | Anaml | - | - | - |
| **(vi)** | Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | Bob 4 blynedd | 2,200 | - | 2,200 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Bob blwyddyn** | 10,600 | - | 10,600 |
| **Bob 1 – 6 mis** | 10,100 | 500 | 10,600 |
| **Bob 4 neu 8 mlynedd** | 40,600 | 38,800 | 79,400 |
| **Anaml** | 3,000 | - | 3,000 |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon